


Adnoddau i'ch helpu chi



Dyma adnoddau i'ch helpu gyda'r AWIF ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Cyhoeddwyd gyntaf: 25 November 2024

Diweddariad olaf: 26 November 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframweithiau-sefydlu/fframwaith-sefydlu-rheolwyr-blynyddoedd-cynnar-gofal-plant/awif-rheolwyr-blynyddoedd-cynnar-adnoddau> am y fersiwn diweddaraf.

Adnoddau i'ch helpu gyda'r AWIF ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Mae gan fanyleb cymhwyster [Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth](#) ac [Ymarfer Rheoli Lefel 5 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant](#) uned ar gyfer pob adran o'r AWIF. Rydym wedi cymryd y deilliannau dysgu gorfodol o bob uned ac wedi defnyddio'r rhain fel y safonau.

O fewn yr unedau, mae gan bob canlyniad dysgu set o feini prawf asesu sy'n gysylltiedig ag ef. Nid ydym yn disgwyl i chi gael eich tywys drwy bob un o'r rhain yn fanwl, ond byddant yn rhoi syniad i chi o'r mathau o wybodaeth ac ymddygiadau y disgwylir i chi ddangos tystiolaeth ohono.

Gallwch ddefnyddio'r [Llyfr gwaith gwybodaeth Rhan A](#) rydyn ni wedi'i ddatblygu i'ch helpu i gwmpasu'r bylchau yn eich gwybodaeth. Mae amrywiaeth o weithgareddau y gallwch eu defnyddio i ddangos bod gennych y wybodaeth angenrheidiol.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r [Arweinlyfr sgiliau cymhwysedd](#) i ddarparu enghreifftiau o sut y gallwch gasglu darnau ymarferol o dystiolaeth i ddangos eich sgiliau rheoli trwy gydol eich rôl.

Mae gennym hefyd ystod eang o adnoddau y gall rheolwyr eu defnyddio i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Gallwch ddod o hyd i'r rhain yn ein [tudalen adnoddau ac arweiniad](#) ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Efallai y gwelwch chi fod yr adnodd '[Blwyddyn gyntaf fel rheolwr: canllawiau ymarfer - adnodd ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant](#)' yn ddefnyddiol.